# Cyngor Bwdeistref Sirol Wrecsam
# Gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc

## Amserlen Mynediad Ysgolion

**Dylai pob rhiant sy'n ceisio am le mewn ysgol ar gyfer mis Medi 2012 wneud yn siŵr fod eu ceisiadau wedi eu cyflwyno o fewn yr amserlenni a gyhoeddir isod.**

Mae ALl Wrecsam yn gweithredu mynediad sengl ym mis Medi bob blwyddyn. Dylai eich plentyn gyrraedd yr oedran isod er mwyn cymhwyso:

| Ysgol Gyfredol 31/08/2012 | Ysgol Newydd | Oedran erbyn |
|---|---|---|
| Amherthnasol | Meithrin | 3 |
| Meithrin | Derbyn Babanod/Cynradd | 4 |
| Babanod | Iau | 7 |
| Cynradd/Iau | Uwchradd | 11 |

| Cyfnod Mynediad | Pecynnau mynediad ar gael i rieni w/c | Cyfnod ystyried i rieni | Ffurflenni a gwblhawyd wedi eu dychwelyd gan ysgolion Dyddiad cau ALl | Cyfnod dyrannu gan ALl/awdurdod derbyn | Rhoi gwybod i rieni erbyn: |
|---|---|---|---|---|---|
| Uwchradd | 05/09/11 | 05/09/11 Hyd 31/10/11 | 31/10/11 | 01/11/11 Hyd 03/02/12 | 01/03/12 |
| Babanod - Iau | 05/09/11 | 05/09/11 Hyd 31/10/11 | 31/10/11 | 01/11/11 Hyd 09/03/12 | 23/03/12 |
| Derbyn | 05/09/11 | 05/09/11 Hyd 31/10/11 | 31/10/11 | 01/11/11 Hyd 09/03/12 | 23/03/12 |
| Meithrin | 04/01/12 | 04/01/12 Hyd 20/02/12 | 20/02/12 | 21/02/12 Hyd 05/04/12 | 20/04/12 |

Bydd yr holl geisiadau a dderbynnir yn cael eu hystyried gyda'i gilydd a'u hasesu yn erbyn meini prawf yr Awdurdod. **Ni roddir** blaenoriaeth i'r ceisiadau a dderbyniwyd cyn y dyddiad cau wrth ddyrannu llefydd.

Ystyrir **ceisiadau hwyr** gan ddefnyddio'r un meini prawf a gyhoeddwyd, ond pe digwyddai ysgol fod yn rhy llawn, yna caiff unrhyw geisiadau hwyr eu hystyried **ar ôl** y rhai a dderbyniwyd erbyn y dyddiad cau. Golyga hyn efallai y bydd gan rieni lai o gyfle i gael lle i'w plentyn yn eu dewis ysgol os ydynt yn anfon eu ffurflen ar ôl y dyddiad cau.


## Cysyllter â'r Swyddog Derbyn am fwy o wybodaeth:
## Rhif ffôn: 01978 298814


wrexham COUNTY BOROUGH COUNCIL CYNGOR BWRDEISTREF SIROL wrecsam